# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Cyllid

Lleoliad:

**Fideogynhadledd drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Gwener, 2 Gorffennaf 2021

Amser: 09.30 - 10.52

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/12374

## Yn bresennol

| **Categori** | **Enwau** |
|---|---|
| Aelodau o'r Senedd: | Peredur Owen Griffiths AS (Cadeirydd)<br>Alun Davies AS<br>Peter Fox AS<br>Rhianon Passmore AS |
| Tystion: | Rebecca Evans AS, Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol<br>Matthew Denham-Jones, Llywodraeth Cymru<br>Andrew Jeffreys, Llywodraeth Cymru |
| Staff y Pwyllgor: | Bethan Davies (Clerc)<br>Leanne Hatcher (Ail Glerc)<br>Georgina Owen (Ail Glerc)<br>Mike Lewis (Dirprwy Glerc)<br>Owen Holzinger (Ymchwilydd)<br>Joanne McCarthy (Ymchwilydd) |

Senedd Cymru
Welsh Parliament

Rhag-gyfarfod anffurfiol (09.15-09.30)

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i gyfarfod (rhithwir) cyntaf y Pwyllgor Cyllid.

## 2 Papur(au) i'w nodi

2.1 Cafodd y papurau eu nodi.

### 2.1 PTN 1 - Llythyr gan Brif Weithredwr a Chlerc y Senedd; Goblygiadau ariannol pandemig COVID-19 - y sefyllfa ddiweddaraf fel ar 31 Mawrth 2021 - 26 Mai 2021

### 2.2 PTN 2 - Cylch gwaith y Pwyllgor Cyllid

## 3 Cyllideb Atodol Gyntaf Llywodraeth Cymru 2021-22: Sesiwn dystiolaeth

3.1 Cytunodd y Gweinidog i ysgrifennu at y Pwyllgor yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf, gan amlinellu ei bod yn anodd cael darlun clir gan Lywodraeth y DU ynghylch cyllid canlyniadol Barnett.

3.2 Cytunodd y Gweinidog i ofyn i Weinidog yr Economi i roi'r wybodaeth a ganlyn i'r Pwyllgor:

- dadansoddiad manwl o'r cyllid o £55 miliwn a oedd ar gael ar gyfer cymorth busnes ym mis Mai a mis Mehefin, gan gynnwys y rhesymau dros beidio â chymeradwyo ceisiadau 24 y cant o fusnesau, sut y cafodd y dyraniadau eu gwerthuso a sut y mae unrhyw danwariant o'r £55 miliwn wedi'i ailddyrannu.
- rhagor o wybodaeth am y cynlluniau cymorth busnes y bydd Llywodraeth Cymru yn eu hariannu yn y dyfodol o'r pecyn cymorth o £200 miliwn.

## 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i wahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod hwn ac o gyfarfodydd yn y dyfodol, nes y nodir yn wahanol.

4.1 Derbyniwyd y cynnig.

## 5 Cyllideb Atodol Gyntaf Llywodraeth Cymru 2021-22: Trafod y dystiolaeth

5.1 Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a ddaeth i law.

## 6 Gweithdrefnau'r Pwyllgor Cyllid a'i ffyrdd o weithio

6.1 Trafododd y Pwyllgor papurau ar weithdrefnau'r Pwyllgor a'i ffyrdd o weithio.